SIR GAERFYRDDIN


# Nodiadau Natur

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership

## EBRILL-MEHEFIN 2022


Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfoeth o fywyd gwyllt. Mae'r 'Nodiadau Natur' hyn yn nodi rhai o'r uchafbwyntiau er mwyn ein hannog ni i gyd i fwrw golwg fanylach o'n hamgylch ni – mae hyd yn oed y pethau mwyaf cyffredin yn arbennig. Ydych chi wedi gweld rhywbeth diddorol? Beth am anfon llun atom?





I gael rhagor o wybodaeth am natur yn y sir, darllenwch ein Cynllun Adfer Natur:
sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth

Anfonwch eich lluniau at: Biodiversity@sirgar.gov.uk



## Tegeirian brith y rhos

Tegeirian brith y rhos (*Dactylorhiza maculata*) yw un o degeirianau mwy cyffredin Sir Gaerfyrddin, lle bo'i gynefin glaswelltir llaith wedi goroesi. Mae hwn yn un o grŵp cymhleth o rywogaethau o degeirianau sy'n cymysgrywio, gan arwain at lawer o ffurfiau canolradd; mae'r rhywogaethau hefyd yn arddangos ystod eang o liwiau. Mae tegeirianau'n cael eu peillio gan amrywiaeth o bryfed ac yn cynhyrchu miloedd lawer o hadau bach iawn sy'n cael eu disgrifio'n briodol fel 'hadau llwch'. Maent yn dibynnu ar ffyngau yn y pridd i roi iddynt yr egni sydd ei angen i egino.



## Corsleoedd

Mae corsleoedd yn gynefin naturiol pwysig. Maent yn cefnogi llawer o rywogaethau brodorol, gan gynnwys adar pwysig (e.e. teloriaid), planhigion gwlypdir, infertebratau, (e.e. gweision y neidr) a mamaliaid (e.e. dyfrgwn a llygod dŵr). Maent yn rhan o dirwedd iach a chydnerth.

Mae corsleoedd hefyd yn bwysig i bobl. Maent yn darparu dŵr ffres i ni drwy hidlo llygredd a gallant fod yn fannau storio dŵr, sy'n lleihau'r perygl o lifogydd. Fodd bynnag, mae cynefinoedd gwlypdir wedi dirywio'n fawr.

Yn Sir Gaerfyrddin gallant fod yn gynefinoedd bychain ar gyrion cyrff dŵr, ac felly maent yn aml yn eithaf tameidiog. Ar hyd yr arfordir o'r Bynea i Gydweli ceir nifer o enghreifftiau o orsleoedd bach. Fodd bynnag, mae gan Bwll Witchett yn Nhwyni Talacharn a Ffrwd Fen ger Pinged orsleoedd mawr. Mae ein haberoedd hefyd yn cynnal corsleoedd, megis yr ardal helaeth yn Llangennech, ger aber Afon Llwchwr.



©Theresa Greenaway

## Chwilen olew fioled

Roedd yn gyffredin ar un adeg ledled Prydain, ond bellach mae dosbarthiad y chwilen olew fioled (*Meloe violaceus*) wedi lleihau – mwyaf tebyg oherwydd eu bod yn dibynnu ar laswelltiroedd lled-naturiol. Mae'r wyau'n cael eu cloddio mewn tyllau ac mae'r chwilod ifanc yn fach iawn. Fe ddônt i'r golwg yn y gwanwyn ac aros ar flodau am wenyn turio sy'n ymweld â'r blodau. Mae'r larfaod hyn yn mynd ar gefn y wenynen yn ôl i'w nyth ac yna'n bwyta'r bwyd y daw'r wenynen yn ôl ag ef i'r gwenyn bach – yn debyg iawn i beth mae'r gwcw'n ei wneud!



## Chwilod paill

Chwilod bach (2-3mm) duon yw'r chwilod paill ac mae ganddynt lewyrch metelaidd. Mae sawl rhywogaeth debyg iawn o chwilod paill. Caiff rhai rhywogaethau eu denu'n benodol at flodau melyn. Gallant fod yn bla ar gnydau rêp had olew masnachol. Mae ymchwilwyr wedi bod yn arbrofi drwy adael i ymylon caeau dyfu a thrwy hau blodau gwyllt ar lecynnau sy'n noddfa i drychfilod, fel y gall ysglyfaethwyr naturiol y chwilen paill ffynnu. Mae niferoedd y chwilod paill yn llai blwyddyn wedi'r plannu a chreu'r llecynnau, a gallent leihau'r defnydd o blaladdwyr i reoli'r chwilod.



## Peillio

Mae angen neithdar a phaill ar wenyn. Mae'r neithdar ar gyfer egni ac mae'r paill yn darparu protein a maetholion eraill. Defnyddir y rhan fwyaf o'r paill gan y gwenyn fel bwyd i'w larfaod, ond mae gwenyn hefyd yn ei drosglwyddo o blanhigyn i blanhigyn, gan ddarparu'r peillio sydd ei angen ar blanhigion; peillio rydym ni gyd yn elwa ohono.

Fel ni, mae angen amrywiaeth yn eu deiet ar wenyn. Po fwyaf o ffynonellau o flodau sydd ar gael i wenyn gorau oll - mae blodau gwyllt, coed, llwyni, a gwrychoedd i gyd yn bwysig.

.



## Gwyfynod turio deilen fieri

Mae'r gwyfyn turio deilen fieri (*Stigmella aurella*) i'w ganfod ledled y DU. Caiff y twneli eu tyllu gan larfaod y gwyfynod, a hynny ychydig islaw wyneb y dail mwyar duon. Treulia'r larfaod y gaeaf tu mewn i'r twnneli ac wedyn maent yn dod i'r wyneb i chwileru cyn troi'n wyfynod. Mae'r twnneli'n cynyddu ac yn mynd yn lletach wrth i'r larfaod dyfu.



## Cen barfog cnapiau hirion

Y cen barfog cnapiau hirion (*Usnea articulata*) yw un o gennau mwyaf trawiadol Cymru. Yn aml mae'n 30-40 cm o hyd, a gall dyfu i fod yn fwy nag 1 metr o hyd. Mae'n edrych yn flêr, fel barf, gyda thwffiau crog sy'n fflapio yn y gwynt. Mae'n hawdd ei adnabod oherwydd ei ymddangosiad 'llinyn o selsig' unigryw - mae gan y 'coesynnau' chwyddedig bwyntiau cul ac ymdebygant i selsig.

Achoswyd dirywiad gan lygredd diwydiannol ond erbyn hyn mae'n edrych yn debyg ei fod yn lledaenu eto, ac mae mwy o safleoedd newydd yn cael eu hadnabod bob blwyddyn. Mae
tri phrif gynefin: y ddraenen wen mewn mannau gwyntog; planhigfeydd llarwydd gwyntog (ond yr ochr sydd yng nghysgod y gwynt); a thopiau helyg mewn gwlyptiroedd. Daw'r cofnodion eraill o goed deri a cherddin.



## Llygod y Dŵr

Fel arfer mae llygod y dŵr (*Arvicola amphibius*) yn cloddio systemau tyllu helaeth yn glannau'r dyfrffyrdd. Fodd bynnag, mewn ardaloedd gwlyb, brwynog, gall llygod dŵr wneud nythod uwchlaw'r ddaear (tua 20cm o led) ymysg y twffiau.

Maent wedi gwneud hyn ar safle mae'r Cyngor yn ei reoli ar gyfer llygod y dŵr yn Llanelli. Cafodd pyllau eu hagor ger ffosydd lle'r oedd llygod y dŵr eisoes wedi'u cofnodi, ac maent wedi symud i'r ardal hon. Nid oes banciau ar gyfer tyllu yn bodoli yma felly maent yn defnyddio nythod uwchlaw'r ddaear. Dylai arolwg pellach yr haf hwn ddatgelu mwy a helpu i lywio rheolaeth yn y dyfodol.




## *Demoiselle* hardd

Nid gwas y neidr yw'r *demoiselle* hardd (*Calopteryx virgo*) ond mursen fawr. Fel mursennod eraill, maent fel arfer yn cadw eu hadenydd ar gau wrth orffwys. Mae'r gwrywod yn las a'r benywod yn wyrdd. Mae'r gwrywod yn gorffwys ar y llystyfiant ar y lan a phan fydd benyw yn pasio, defnyddiant eu hehediad fel rhan o'u harddangosiad carwriaethol.

Yn eironig ddigon, mae'r fursen drawiadol hon yn treulio'r rhan fwyaf o'i bywyd o dan ddŵr fel larfa. Daw i'r golwg am ychydig wythnosau'n unig i fyw ar ddŵr sy'n llifo'n gyflym fel oedolion.

Mae'r larfaod a'r oedolion yn ysglyfaethwyr - mae'r oedolion yn hela ar yr adain gan ddefnyddio eu golwg rhagorol.



## Chwilen deigr werdd

Mae'r chwilen deigr werdd (*Cicindela campestris*) yn ysglyfaethwr cyflym ac ystwyth a geir ledled y DU. Mae'n hawdd ei hadnabod oherwydd ei lliw gwyrdd a smotiau melyn, ac mae modd ei gweld rhwng mis Ebrill a mis Medi. Mae ei choesau hir yn golygu ei bod yn rhedwr ystwyth ac mae ei llygaid mawr yn ei helpu i ddal ysglyfaeth - mae'n bwydo ar anifeiliaid di-asgwrn-cefn eraill fel corynnod a lindys. Bydd yn hedfan pellteroedd byr gan wneud sŵn suo wrth hedfan.

Mae'n well gan y chwilen deigr werdd ardaloedd o dir moel heb fawr o lystyfiant. Fe'i gwelir amlaf mewn cynefinoedd cynnes a thywodlyd mewn rhostiroedd, bryniau a thwyni a hefyd hen safleoedd diwydiannol.



## Rheoli safleoedd ar gyfer peillwyr

Eleni mae hyd yn oed mwy o bobl yn rheoli ardaloedd ar gyfer pryfed peillio. Mae'r Cyngor yn defnyddio peiriannau torri a chasglu a brynwyd gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru drwy gyfrwng y prosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i dreialu'r gwaith o reoli rhai safleoedd ar gyfer pryfed peillio a oedd gynt yn cael eu torri'n rheolaidd. Bydd rhai ardaloedd o amgylch safleoedd tai yn cael eu torri unwaith bob 4-5 wythnos gan ganiatáu i blanhigion blodeuol sy'n tyfu'n isel fel meillion, meddyges las a llygad y dydd i flodeuo; dim ond ddwywaith y flwyddyn y bydd eraill yn cael eu torri. Yma yn Cross Hands gallwch weld y manteision yn barod – y tu allan i'r unedau busnes mae tegeirianau'n blodeuo. Bydd y glaswellt sydd wedi'i dorri yn cael ei symud – naill ai yn drwy gael ei adael ar y safle mewn pentyrrau cynefin neu'n cael ei gludo i'r safle gwastraff gwyrdd. Mae'r olaf yn cymryd amser ac adnoddau ychwanegol felly bydd y cyfnod prawf dros yr haf yn helpu i lywio sut mae'r cyngor yn ehangu'r ffordd hon o weithio yn y dyfodol.





## Sefydlu coed sydd newydd eu plannu

Mae plannu coed yn boblogaidd, ac, yn y lle iawn, o fudd i bobl a bywyd gwyllt. Ond mae'n rhaid ei wneud yn iawn a chyda gofal. Bydd llwyddiant y plannu yn dibynnu ar ddewis y rhywogaethau cywir ar gyfer y safle ac ar ddarparu amgylchedd lle bydd y coed ifanc yn ffynnu.

Mae angen gofal ar goed i'w sefydlu yn eu dewis safle ac mae hyn yn cymryd peth amser ac ymdrech.

Wedi eu plannu, rhaid cadw ardal o amgylch pob coeden yn ddi-chwyn am o leiaf 3 blynedd. Mae hyn yn bwysig iawn - mae gan goed gyfle llawer gwell i oroesi os cânt eu cadw'n ddi-chwyn.

Plannwyd y coed hyn ym Mharc Dewi Sant yng Nghaerfyrddin ? o flynyddoedd yn ôl ond maent yn dal i dderbyn gofal. Yn ddiweddar, gwaredwyd y polion a'r clymau a chafodd yr ardal o amgylch bonyn y goeden ei chwynnu a thaenwyd trwch arall o risgl rhydd drosti. Cafodd rhywfaint o docio ei wneud lle roedd angen.

Mae'r polion yn rhwystro'r gwynt rhag siglo'r goeden ac yn atal y gwreiddiau rhag symud, sy'n gallu eu difrodi ac arafu'r broses sefydlu.

Os bydd y clymau'n mynd yn rhy dynn a/neu os na chânt eu gwaredu, bydd hyn yn stopio'r boncyff i ehangu ac yn arwain at goed gwan, bregus.



## Hwyr y Gwanwyn

Gall tywydd gwlyb ddod o un man. Yma mae'r glaw yn prysur symud tua'r dwyrain – ond fe aeth heibio'n ddigon buan.



## Partneriaeth Natur Sir Gâr

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
WWBIC West Wales Biodiversity Information Centre Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru
National Botanic Garden of Wales Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Coed Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Wildlife Trust of South & West Wales
Butterfly Conservation Wales Gwarchod Glöynnod Byw Cymru
Llanelli Naturalists Naturiaethwyr Llanelli
amphibian and reptile conservation
Bat Conservation Trust
Clwb Adar Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire Bird Club
Plantlife
Carmarthenshire Meadows Group Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol The National Trust
Pori Natur a Threftadaeth
Bumblebee Conservation Trust
buglife
Mid Wales Red Squirrel Partnership Partneriaeth Gwiwerod Coch
WWT
Botanical Society of the British Isles
West Wales Rivers Trust Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru
Menter ar Gyfer Cadwraeth Natur Cymru Initiative for Nature Conservation Cymru